**Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL EOC 04-02(p1)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 22 Mai 2002 |
| **Amser:** | 9.30am |
| **Lleoliad:** | Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl:** | Adroddiad y Cadeirydd |

**DIBEN**

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y materion sydd wedi codi ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor ar 24 Ebrill 2002.

**ARGYMHELLIAD**

2. Gwahodd yr aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad.

***Cyflog Cyfartal***

3. Lansiwyd y CD-Rom ar Gyflog Cyfartal ar 14 Mai 2002 yn Wythnos Busnes Cymru yn Arena Ryngwladol Caerdydd. Mae copi o'r CD-ROM wedi'i anfon at bob aelod o'r pwyllgor.

***Mynediad i Orsafoedd Pleidleisio***

4. Rwyf wedi ysgrifennu at Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, ynghylch mynediad ar gyfer pobl anabl i adeiladau ysgolion. Mynegais ddiddordeb y pwyllgor mewn unrhyw gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella mynediad ar gyfer pobl anabl i adeiladau ysgolion yng Nghymru. Trwy wneud hynny gellid gwella'r dewis o adeiladau cyhoeddus hawdd mynd atynt y gellid eu defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio.
5. Rwyf wedi ysgrifennu hefyd at y Cynghorydd Harry Jones, Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn amlinellu'r prif syniadau a'r pryderon a fynegwyd gan y pwyllgor yn ystod ein trafodaethau yn y cyfarfod diwethaf ar fynediad i orsafoedd pleidleisio. Pwysleisiais yn benodol brif bryder y pwyllgor, sef y dylai'r broses bleidleisio fod yn un gynhwysol sydd o fewn cyrraedd i bawb.
6. Mae'r Clerc wedi ysgrifennu at Kay Jenkins o'r Comisiwn Etholiadol, yn gofyn am nodyn ar ei waith, gan gynnwys system dreigl ar gyfer cofrestru, defnyddio'r dechnoleg newydd

i ategu dulliau pleidleisio traddodiadol, a'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda sefydliadau sy'n ymwneud ag anabledd i ddatblygu canllawiau.

***Swyddfa'r Comisiynydd Gwasanaethau Mewnfudo***

7. Mae'r Clerc wedi ysgrifennu at John Scampion, y Comisiynydd Gwasanaethau Mewnfudo, yn gofyn am nodyn ar y materion a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf ac ar y ffordd y mae rôl y Comisiynydd yn datblygu yng Nghymru.

***Strategaeth ar gyfer Pobl Hn yng Nghymru***

8. Ysgrifennodd Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ataf yn amgáu papur ar Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Pobl Hn yng Nghymru. Mae'r nodyn wedi'i anfon at aelodau'r pwyllgor er gwybodaeth.

***An Absolute Duty: Equal Opportunities and the National Assembly for Wales***

9. Ysgrifennodd Kate Bennett, Cyfarwyddydd y Comisiwn Cyfle Cyfartal, ataf ynghylch adroddiad ymchwil ar y ddyletswydd sydd ar y Cynulliad i roi ystyriaeth briodol i gyfle cyfartal. Comisiynwyd yr adroddiad gan y Comisiwn Cyfle Cyfartal, y Comisiwn Hawliau Anabledd, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a'r Sefydliad Materion Cymreig.
10. Rwyf wedi gwahodd awdur yr adroddiad, y Dr Paul Chaney o Brifysgol Caerdydd, i amlinellu'r canfyddiadau yng nghyfarfod y pwyllgor ar 26 Mehefin 2002.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**

**Mai 2002**